*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1772

# Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002

**Camau i'w cymryd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl cael hysbysiad apêl**

**6.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn hysbysiad apêl, anfon copi ohono i'r Cyngor, ynghyd â chopi o unrhyw ddogfen arall a amgaewyd gydag ef.

(2) Nid yw paragraff (1) uchod yn gymwys i'r canlynol—

(a) i hysbysiad apêl y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gael:

(i) yn achos unrhyw apêl heblaw apêl gwrthodiad tybiedig, ar ôl i gyfnod o ddau fis ddod i ben (neu unrhyw gyfnod hwy y cytunwyd arno'n ysgrifenedig gan yr apelydd a'r Cyngor) gan ddechrau ar ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad; neu

(ii) yn achos apêl gwrthodiad tybiedig, ar ôl i gyfnod o chwe mis ddod i ben (neu'r cyfnod hwy hwnnw y cytunwyd arno'n ysgrifenedig gan yr apelydd a'r Cyngor) gan ddechrau ar y dyddiad yr anfonodd yr apelydd hysbysiad i'r Cyngor o gynnig i gyflawni'r gweithrediad yr ymdrinnir ag ef fel pe bai'r cydsyniad ar ei gyfer wedi cael ei wrthod;

(b) i hysbysiad apêl y mae'r apelydd, mewn manylyn perthnasol, wedi methu cydymffurfio â gofynion rheoliad 3 mewn perthynas ag ef, ond mewn achos o'r fath caiff y Cynulliad Cenedlaethol roi hysbysiad i'r apelydd o natur y methiant hwnnw a'r camau sy'n angenrheidiol i'w gywiro ac os bydd yr apelydd, cyn pen 14 diwrnod ar ôl cael hysbysiad o'r fath yn cymryd y camau gofynnol, ni fydd yr is-baragraff bellach yn gymwys i'r hysbysiad apêl o dan sylw.